Gwasanaeth Tân Ac Achub De Cymru

Rhyddid Gwybodaeth

Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth Enghreifftiol

Arweiniad Ar Y Wybodaeth

Cyflwyniad

Oherwydd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus fabwysiadu a chynnal **cynllun cyhoeddi** sydd wedi'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth a chyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r cynllun.

O **1 Ionawr 2009** ymlaen bydd yna un cynllun enghreifftiol cymeradwy y bydd angen i bob awdurdod ei fabwysiadu.

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y cyfeirir ato fel DRG yng ngweddill y ddogfen hon) mae dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i feddu ar gynllun cyhoeddi.

Un o amcanion y DRG yw y dylai awdurdodau cyhoeddus fod yn eglur ac yn rhagweithiol ynghylch y wybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi. Er mwyn cyflawni hyn rhaid iddynt lunio cynllun cyhoeddi a fydd yn pennu:

- *y mathau o wybodaeth y maent yn eu cyhoeddi neu'n bwriadu eu cyhoeddi;*
- *y ffurf y caiff y wybodaeth ei chyhoeddi; ac*
- *a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu am dâl.*

Rhaid i ni ryddhau'r wybodaeth yn y modd a gafodd ei ddisgrifio yn ein cynllun cyhoeddi.

Pwrpas y **cynllun cyhoeddi** yw sicrhau bod swm sylweddol o wybodaeth ar gael yn rheolaidd, heb orfod gwneud cais penodol. Bwriad cynlluniau cyhoeddi yw annog sefydliadau i fynd ati i gyhoeddi mwy o wybodaeth a datblygu mwy o ddiwylliant o fod yn agored. Mae'r cynllun yn dod â'r gwahanol fathau o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd at ei gilydd mewn ffordd strwythuredig ac yn rhoi manylion am sut i gael gafael ar y cyfan. Y nod yw arbed amser ac ymdrech i chi.

Mae cynllun cyhoeddi Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cynnwys gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chyhoeddi ac sy'n cael ei dal gan yr Awdurdod Tân, neu wybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn y cynllun ar gael mewn nifer o ffyrdd ond nid yw o reidrwydd ar gael ym mhob un o'r ffyrdd hyn. Yn gyffredinol, mae gwybodaeth ar gael drwy ei lawrlwytho o'n gwefan, drwy e-bost, drwy'r post a thrwy archwiliad

personol am ddim, neu am gost fechan. I weld y costau, edrychwch ar yr adran isod **'Codi tâl am wybodaeth'**.

Bydd y cynllun cyhoeddi yn nodi a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu a fyddai angen talu tâl.

Sut I Gael Y Wybodaeth Y Mae Ei Hangen Arnoch

Mae'r cynllun cyhoeddi yn rhestru'r gwahanol fathau o wybodaeth yr ydym yn ei chyhoeddi, wedi'i grwpio er hwyluster wrth chwilio. Yr enw ar y grwpiau hyn yw **'Mathau o wybodaeth'** ac maent wedi eu trefnu'n nifer o wahanol gategorïau.

Mae saith prif fath o wybodaeth:

- Pwy ydym ni a beth yr ydym yn ei wneud
- Faint yr ydym yn ei wario ac ar beth
- Beth yw ein blaenoriaethau a sut yr ydym yn perfformio
- Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau
- Ein polisïau a'n gweithdrefnau
- Rhestrau a Chofrestrau
- Y gwasanaethau a gynigiwn

O fewn pob un o'r categorïau hyn mae gwybodaeth ar gael ar nifer o wahanol bynciau.

Mathau O Wybodaeth

Pwy Ydym Ni A Beth Yr Ydym Yn Ei Wneud

Ers 1 Ebrill 1996, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol am Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi tua 1850 o bobl gan gynnwys 1,000 o Ymladdwyr Tân system dyletswydd llawn amser, 600 o Ymladdwyr Tân system dyletswydd rhan amser a 250 o staff cefnogi dilifrai a phersonél yn yr ystafell reoli. Mae'r gwasanaeth yn gweithio o 50 Gorsaf Dân a nifer o leoliadau swydd o fewn Ardal De Cymru. Mae'r Tîm Rheoli a nifer o'r gwasanaethau cefnogi wedi'u lleoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae'r Gwasanaeth yn ymestyn ar draws ardal sy'n 1085 milltir sgwâr, yn cynnwys dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd a threfi mawr fel Merthyr Tudful, Mynwy, Pontypridd, Y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â'r risgiau mawr amaethyddol, masnachol a diwydiannol o fewn De Cymru.

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yw'r corff llywodraethol sy'n gyfrifol am sicrhau y darperir gwasanaethau tân o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 2004 a gwybodaeth berthnasol ddilynol yn ymwneud â than. Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau drwy Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (y Gwasanaeth). Swyddogaethau sylfaenol y Gwasanaeth yw ymladd tân, gwasanaeth achub arbennig a gwasanaethau dyngarol, diogelwch tân, lleihau risg cymunedol, gwasanaethau addysg diogelwch tân mewn ysgolion a helpu i leihau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.

Mae'r Awdurdod Tân yn cwrdd nifer o weithiau bob blwyddyn ac yn cynnwys 24 o gynghorwyr o blith y cynrychiolwyr etholedig o'r deg awdurdod lleol o fewn ei ffiniau a restrir fel a ganlyn:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (1)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (2)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (3)
- Dinas a Sir Caerdydd (5)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (1)
- Cyngor Sir Fynwy (2)
- Cyngor Sir Casnewydd (2)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (4)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (2)
- Cyngor Bro Morgannwg (2)

Pennir cyfansoddiad yr Awdurdod Tân gan faint y gynrychiolaeth etholiadol o fewn pob awdurdod lleol a'r cymesuredd gwleidyddol ar draws yr ardal gyfunol.

Yn y cyfarfod blynyddol, mae'r Awdurdod Tân yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeiryddion i'r Awdurdod, a Chadeiryddion, Is-gadeiryddion ac Aelodau ei Bwyllgorau.

Ymhlith ei swyddogaethau niferus, mae'r Awdurdod Tân yn pennu'r gyllideb flynyddol, yn cytuno ar lefelau personél a cherbydau, yn cymeradwyo cynlluniau, polisïau a strategaethau'r Gwasanaeth ac yn cymeradwyo cyfansoddiad unrhyw Bwyllgorau, Is-bwyllgorau, Grwpiau Cynghori a Grwpiau Gorchwyl.

Mae swyddogaethau craidd yr Awdurdod Tân wedi'u nodi yn y Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Dyma nhw yn gyffredinol:

- Hyrwyddo diogelwch tân er mwyn atal tanau, a marwolaethau neu anafiadau oherwydd tanau, a chael y wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cynorthwyo gyda hyn.

- Diffodd tanau ac amddiffyn bywydau ac eiddo os bydd tân, trwy ddarparu personél, gwasanaethau, cyfarpar a hyfforddiant.

- Achub pobl sydd wedi'u dal/anafu oherwydd gwrthdrawiadau ar y ffyrdd trwy ddarparu personél, gwasanaethau, cyfarpar a hyfforddiant.

- Gwneud trefniadau i ddelio â galwadau am help a threfnu bod personél, gwasanaethau a chyfarpar yn mynd i ddigwyddiadau.

- Delio gydag argyfyngau ar wahân i dân neu wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn ôl gorchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hyn yn cynnwys delio â gollyngiadau a / neu ryddhau sylweddau sy'n peryglu bywydau neu'r amgylchedd ac ymateb i effeithiau amodau tywydd eithafol e.e. pwmpio dŵr o eiddo sydd wedi gorlifo lle bo perygl i fywyd.

Mae'r cyfrifoldeb o reoli Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn eistedd gyda'r Prif Swyddog Tân sy'n cael ei gefnogi gan bum Prif Swyddog a Bwrdd Parhad Busnes sy'n creu polisïau.
Mae rheolaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi'i rannu'n saith Cyfarwyddiaeth gyda Chyfarwyddwr yn gyfrifol am bob un:

Ymyrraeth – Mae'n darparu ymateb tân ac achub rheng flaen mewn argyfwng ar gyfer ardal De Cymru.

Lleihau Risg - Mae ganddo ddwy adran swyddogaethol: Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau a Diogelwch Tân Deddfwriaethol. Y prif nod yw lleihau risg tân a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd i gyhoedd De Cymru mewn modd rhagweithiol.

Cynllunio, Datblygu a Chymorth Gweithredol - Delio â gweithdai Gwasanaethau Fflyd, Rheolaeth Risg Gweithredol ac Iechyd a Diogelwch.

Adnoddau Dynol – Swyddogaethau yn cwmpasu Rheolaeth Adnoddau Dynol, Hyfforddiant a Datblygiad, Cymorth Hyfforddi, Cyflogres, Cynigion ac Iechyd Galwedigaethol

Cyllid a Rheoli Asedau – Swyddogaethau yn cynnwys paratoi cyfrifon ariannol, darparu cymorth ariannol a chrynhoi cyllidebau, caffael a storfa a chynnal a datblygu eiddo sy'n berchen i'r Awdurdod.

Cyfreithiol, Gweinyddol a TGCh – Swyddogaethau yn cynnwys gwasanaethau corfforaethol, rheolaeth cyfleusterau, cymorth TGCh,

datblygu cynaliadwy, gwasanaethau cyfreithiol, Ysgrifenyddiaeth y Prif Swyddogion.

Polisi, Perfformiad a Chyfathrebu – Swyddogaethau yn cynnwys Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yr Iaith Gymraeg, Rheoli Perfformiad, Ystadegau, Polisi, Cyfryngau, Cyfathrebu, Marchnata a Dylunio.

Llywodraethu Corfforaethol yw'r set o brosesau, arferion, polisïau, cyfreithiau a sefydliadau sy'n effeithio'r ffordd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cael ei arwain, gweinyddu neu reoli. Mae rheolwyr ac aelodau'n cael eu llywodraethu gan y rheolau hyn ac o'r herwydd mae Cofrestr Buddiannau'n cael ei chynnal o fewn y sefydliad.

O fewn y **Math** hwn o wybodaeth mae'r Awdurdod Tân wedi cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol:

- Enwau'r Aelodau a'r Awdurdod Lleol y maent yn ei gynrychioli
- Strwythurau pwyllgorau
- Strwythur y sefydliad
- Strwythur y staff
- Manylion cyswllt yr holl orsafoedd a swyddfeydd
- Ardal Ddaearyddol Gweithrediadau
- Amlinelliad Cyffredinol o Gyfrifoldebau

Faint Yr Ydym Yn Ei Wario Ac Ar Beth

Mae holl wariant yr Awdurdod Tân yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Ariannol sy'n dod o fewn y cyfrifoldebau statudol sydd wedi'u nodi o fewn Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 1996 yn gosod cyfrifoldebau pellach.

Mae datganiadau ariannol yr Awdurdod Tân yn cael eu paratoi sy'n cofnodi busnes ariannol y Gwasanaeth. Mae'r datganiadau hyn yn rhoi golwg ar gyflwr ariannol y Gwasanaeth yn y tymor byr a'r tymor hir.

O fewn y **Math** hwn o wybodaeth mae'r wybodaeth ariannol isod ar gael:

- Cyllidebau Blynyddol
- Datganiad Blynyddol o Gyfrifon
- Amodau Cytundeb Safonol ar gyfer Cyflenwi Nwyddau a/neu Wasanaethau
- Sut i wneud busnes gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Rhestr o Gytundebau drwy Dendro a Gwerth

- Rheoliadau Ariannol
- Adroddiadau Archwiliadau Ariannol
- Cyflog Staff a Strwythur Graddio
- Treuliau sy'n cael eu talu i Aelodau'r Awdurdod ac Uwch Swyddogion neu sy'n cael eu hachosi ganddynt

Beth Yw'n Blaenoriaethau A Sut Yr Ydym Yn Perfformio

Mae blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer Awdurdodau Tân yng Nghymru wedi'u pennu yn nogfen Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol Cymru.

Mae perfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wrth gyflawni ei gyfrifoldebau wedi'i bennu gan y cynlluniau canlynol:

Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

Mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (RhCG) yn gofyn i Awdurdodau Tân ac Achub wella eu gwasanaethau yn barhaus a gwneud gwelliannau sy'n werth am arian ac enillion effeithlonrwydd sy'n wirioneddol ac yn gynaliadwy neu sy'n galluogi i fwy o wasanaethau neu well gwasanaethau gael eu darparu am yr un adnoddau. Mae hyn yn adlewyrchu agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus ehangach Llywodraeth y Cynulliad fel yr amlinellwyd yn agenda 'Creu'r Cysylltiadau'.

Bob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Gwella Blynyddol sy'n amlinellu'r meysydd blaenoriaeth y byddwn yn mynd i'r afael â hwy yn y flwyddyn i ddod ac mae hefyd yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am ein perfformiad yn erbyn ein dangosyddion strategol a chraidd.

O fewn y **Math** hwn o wybodaeth mae'r Awdurdod Tân wedi cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol, er enghraifft:

***Cynllun Gwella Blynyddol* -** yr amcanion sylfaenol yw hysbysu pobl am gyfeiriad strategol y sefydliad, darparu nodau allweddol y sefydliad ar gyfer y flwyddyn i ddod ac adolygu ein perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol.

***Cynllun Lleihau Risg* –** wedi'i gynllunio i ystyried risg cymunedol a risg corfforaethol er mwyn i adnoddau'r Awdurdod Tân gael eu defnyddio ar gyfer lleihau risg i gymunedau De Cymru, mae hefyd yn darparu map 5 mlynedd ac yn nodi gweithgareddau allweddol er mwyn lleihau risg ymhellach.

Dangosyddion Strategol, Craidd a Lleol - Mae Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru bellach yn adrodd yn erbyn Dangosyddion Strategol a Chraidd Cymru sydd wedi'u pennu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae dangosyddion strategol wedi'u rhannu'n ddwy adran:

- Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol
- Ymateb Effeithiol

Mae'r dangosyddion hyn yn statudol a byddant yn cael eu harchwilio'n flynyddol.

Mae'r dangosyddion craidd wedi'u rhannu'n dair adran:

- Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol
- Iechyd Corfforaethol – Gweithlu
- Iechyd Corfforaethol – Cyllid

Mae dangosyddion craidd wedi'u gosod fel modd o ddarparu darlun mwy cyflawn o berfformiad ac i alluogi Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am feysydd allweddol lle darperir gwasanaethau a swyddogaethau corfforaethol.

Pennir Dangosyddion Lleol gan adrannau neu gyfarwyddiaethau unigol i adlewyrchu eu blaenoriaethau lleol hwy.

Cynlluniau Busnes a Chynlluniau Cyfarwyddiaeth - i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion corfforaethol a bod mentrau sydd wedi'u hamlinellu o fewn ein Cynllun Lleihau Risg yn cael eu datblygu a'n bod yn mynd i'r afael â'r risgiau sydd wedi'u hamlygu o fewn ein Hasesiad Risg ar y cyd mae yna fframwaith cynllunio cynhwysfawr. Yn unol â'r fframwaith hwnnw mae pob Cyfarwyddiaeth yn creu cynllun busnes sy'n amlinellu ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn cynorthwyo i gyflawni nodau, mentrau ac amcanion corfforaethol.

Cynllun Rheoleiddio Blynyddol – caiff ei gynllunio er mwyn gosod yr holl elfennau rheoleiddio ac archwilio a fydd yn cael eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am gydlynu'r cynllun hwn.

Sut Yr Ydym Yn Gwneud Penderfyniadau

Yr Awdurdod Tân fel corff llywodraethol a'i bwyllgorau cefnogol sy'n meddu ar y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Y Bwrdd Parhad Corfforaethol yw'r corff rheoli sy'n gyfrifol am orfodi'r penderfyniadau hyn.

Mae agendâu ar y pwyntiau i'w trafod yn cael eu rhoi i aelodau pob pwyllgor ac mae'r cofnodion yn cofnodi'r penderfyniadau a'r camau sy'n cael eu gwneud gan bob grŵp.

Yn ychwanegol mae Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn cynnal cyfarfodydd sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar gyfeiriad polisi Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

O fewn y **Math** hwn o wybodaeth mae'r agendâu, y cofnodion a'r papurau cefndir canlynol ar gael.

Awdurdod Tân
Cyllid a Rheoli Perfformiad

Ein Polisïau A'n Gweithdrefnau

Mae'r polisïau sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân yn llywio ein ffordd o gyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion sydd wedi'u pennu gan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff rheoleiddio eraill.

Llawlyfrau Gwybodaeth Gwasanaeth neu Ddogfennau Polisïau a Gweithdrefnau Sefydliadol yw'r prif ganllawiau ar gyfer holl weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn eu gweithgareddau a'u gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae chwe chategori:

- Amodau Gwasanaeth
- Corfforaethol a Chyfathrebu
- Cydraddoldeb
- Cyfarpar, Dillad a Thrafnidiaeth
- Cyllid
- Iechyd, Diogelwch a Lles
- Gweithrediadau

O fewn y categorïau hyn y mae ein polisïau yn ymwneud â:

- Iechyd a Diogelwch
- Adnoddau Dynol
- Caffael
- Datblygu Cynaliadwy
- Cydraddoldeb
- Cynllun Iaith Gymraeg
- Gweithrediadau - Ymladd Tân ac Achub
- Hyfforddiant
- Digwyddiadau Mawr ac Amddiffyn Sifil

Archebion Sefydlog Cylch Gorchwyl, Pwerau Dirprwyedig a Dirprwyaeth i Bwyllgorau yw'r rheolau cyffredin ar gyfer cynnal busnes o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

O fewn y **Math** hwn o wybodaeth mae'r Awdurdod Tân wedi sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer darparu ein gwasanaethau i'r gymuned a chyfrifoldebau canfyddadwy ar gael, yn ogystal â:

Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid
Gweithdrefn Gwyno
Polisïau Rheoli Cofnodion a Data Personol

Rhestrau A Chofrestrau

Mae Cofrestrau yn gofnodion ffurfiol o wybodaeth a all fod yn ofynnol trwy statud. Yn ychwanegol mae rhestrau a chofrestrau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r Awdurdod.

O fewn y **Math** hwn o wybodaeth mae'r Rhestrau a Chofrestrau isod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

- Cofrestr Asedau
- Rhestr Cwynion
- Cofrestrau sy'n agored i'r Cyhoedd eu Harchwilio
- Cofrestr o Fuddiannau Aelodau
- Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Y Gwasanaethau A Gynigiwn

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cyflogi tua 1,000 o Ymladdwyr Tân system dyletswydd Llawn Amser, 600 o Ymladdwyr Tân system dyletswydd Rhan Amser a rhyw 250 o staff cefnogi dilifrai, sydd wedi'u lleoli ar draws De Cymru.

Fel sefydliad sy'n perfformio ar lefel uchel, rydym yn parhau i gyflawni yn erbyn nifer o amcanion a thargedau cenedlaethol sydd wedi'u nodi yn Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Atal

Rydym wedi ymrwymo i leihau nifer y tanau damweiniol a bwriadol, a nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n cael eu hachosi gan dân a digwyddiadau eraill drwy weithio'n rhagweithiol yng nghymunedau De Cymru, ac mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i godi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd ynghylch diogelwch yn y cartref ac yn y gwaith.

Diogelwch Tân yn y Cartref

Darparu gwybodaeth am sut i'ch amddiffyn eich hun a'ch cartref rhag tân.

Diogelwch Tân yn y Gwaith

Mae Diogelwch Tân yn y Gwaith yn hynod o bwysig. Dylech sicrhau eich bod chi a'ch staff yn ymwybodol o'r hyn i'w wneud er mwyn atal tân yn y cartref a sut i ddianc os bydd tân yn dechrau.

Lleihau Llosgi Bwriadol

Darparu gwybodaeth am losgi bwriadol a sut mae mentrau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn lleihau nifer y digwyddiadau a'u heffaith.

Partneriaethau

Prif gylch gwaith ein Hadran Partneriaethau yw cynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn y deg Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Awdurdod Unedol o fewn ein hardal.

Ymyrraeth

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau mawr a thrychinebus yn yr ardal, er mwyn lleihau nifer yr achosion lle bydd pobl yn colli eu bywydau ac anafiadau a hefyd leihau effeithiau corfforol ac ariannol unrhyw golled neu ddifrod o ganlyniad.

Prif swyddogaeth y Tîm Rheoli Ymyriadau yw darparu cymorth i Orsafoedd System Dyletswydd Llawn Amser a System Dyletswydd Rhan Amser wrth ymateb i alwadau brys, ac wrth ddarparu ystod o raglenni addysgiadol a mentrau lleihau risg sydd wedi'u cynllunio ar gyfer bodloni anghenion y gymuned leol.

Tîm Rheoli System Dyletswydd Rhan Amser

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi rhoi Tîm Rheoli Dyletswydd Rhan Amser ar waith sy'n ffurfio rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Ymyrraeth. Rôl y tîm yw cynorthwyo gyda'r gwaith o reoli'r 26 Gorsaf Dân System Ddyletswydd Rhan Amser (SDRA) a 9 gwylfa Rhan Amser sydd wedi'u lleoli o fewn Gorsafoedd Llawn Amser.

Dimensiwn Newydd

Rhaglen Dimensiwn Newydd yw cyfraniad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol tuag at Raglen Galluoedd Argyfyngau Sifil y Llywodraeth. Y nod yw gwella parodrwydd a chydnerthedd Cymru a Lloegr drwy wella gallu'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ymateb i ddigwyddiadau mawr a thrychinebus, er mwyn lleihau colli bywydau ac anafiadau a lleihau effeithiau corfforol ac ariannol unrhyw golled neu ddifrod o ganlyniad.

Hyfforddiant

Mae ymladdwyr tân gweithredol wedi'u hyfforddi'n llawn i ymateb i ystod eang o alwadau brys. Mae ymladdwyr tân hefyd yn treulio amser yn addysgu'r cyhoedd ynghylch diogelwch tân drwy roi cyflwyniadau addysgiadol. Mae'r Adran Hyfforddiant yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen mewn Gwasanaeth Tân ac Achub modern yn cael darpariaeth ar eu cyfer. Mae hyn yn ymwneud â chynnal sgiliau a gweithgareddau cyfredol yn ymarferol ac ar lefel reolaethol.

Ystafell Reoli

Ystafell Reoli De Cymru, wedi'i lleoli ym Mhont-y-clun, yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n galw 999 ac sy'n

gofyn am gymorth mewn argyfwng oddi wrth y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae gwybodaeth am y math o wasanaethau mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn eu cynnig i'r gymuned ar gael drwy amrywiaeth o gyfryngau cyfathrebu - taflenni, llyfrynnau, posteri, cylchlythyron, y wasg a'r cyfryngau, a Gwefan y Gwasanaeth.

O fewn y **Math** hwn o wybodaeth mae'r canlynol ar gael.

- Trwyddedu
- Ymgyrchoedd
- Mentrau Diogelwch Cymunedol
- Gweithdrefnau Rheoleiddio
- Taflenni a Llyfrynnau esboniadol
- Datganiadau i'r Wasg
- Ffioedd a Chostau Darparu Gwasanaethau

Sut Yr Ydym Yn Cyhoeddi Gwybodaeth

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn y cynllun cyhoeddi ar gael ar nifer o ffurfiau ond nid yw o reidrwydd ar gael ym mhob un o'r ffyrdd hyn. Mae manylion ynghylch argaeledd wedi'u cynnwys o fewn pob math o wybodaeth:

- ***Ar-lein ar ein gwefan***
  Pan fydd gwybodaeth ar gael i chi ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru neu ar wefan arall bydd cyswllt yn cael ei ddarparu. Bydd cysylltiadau ar ein gwefan yn mynd â chi at ddogfen benodol neu at ardal o fewn ein gwefan a fydd yn cynnig mwy o ddewis i chi o ran y mathau o wybodaeth sy'n cael eu cynnwys o fewn y math hwnnw. Pan fydd cyswllt i wefan sefydliad arall yn cael ei ddarparu, fodd bynnag, cyfrifoldeb y sefydliad hwnnw yw'r darparu'r wybodaeth ac nid Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae gwybodaeth ar gael ar ein gwefan yn ddi-dâl a gellir gwneud cais amdani hefyd drwy e-bost neu drwy'r post.

- ***E-bost***
  Gellir cael mynediad at wybodaeth sydd ar gael yn arferol ond nad yw'n cael ei chadw ar ein gwefan drwy e-bost a bydd yn cael ei hanfon yn brydlon o fewn 5 diwrnod gwaith wedi derbyn y cais. Gweler yr adran isod ar gyfer `***Manylion Cyswllt'*** i anfon eich cais. Mae gwybodaeth sydd ar gael trwy e-bost hefyd ar gael drwy'r post ar gais.

- ***Post***
  Bydd gwybodaeth sydd ar gael yn arferol yn cael ei phostio o fewn 5 diwrnod gwaith wedi derbyn y cais. Pan fydd angen tâl ar gyfer anfon y wybodaeth bydd y wybodaeth yn cael ei hanfon wedi derbyn y taliad. Gweler yr adran isod ar gyfer '***Manylion Cyswllt'*** i anfon eich cais.

- ***Archwiliad Personol***
  Gall gwybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi fel rhan o'r cynllun cyhoeddi gael ei harchwilio, drwy wneud apwyntiad drwy'r adran '***Manylion Cyswllt'***, ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.00am a 4.30pm. Wedi derbyn eich cais byddwn yn cysylltu â chi o fewn 5 diwrnod gwaith i drefnu apwyntiad.

  Bydd gwybodaeth nad yw ar gael yn arferol yn cymryd mwy o amser i'w phrosesu ac fe allai gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith i'w hanfon.

Cysylltiadau Defnyddiol I Gyfeiriadau Gwefannau Sefydliadau Eraill

Fe allai'r wybodaeth yr ydych yn chwilio amdani fod ar gael gan sefydliadau eraill ar eu gwefannau. Mae cysylltiadau defnyddiol ar gael ar ein gwefan y gallwch eu defnyddio:

www.decymru-tan.gov.uk (Eich Cymuned/Eich Gorsaf Dân/Cysylltiadau)

Er hynny, ni all yr Awdurdod Tân fod yn gyfrifol am gywirdeb y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wefannau sefydliadau eraill na gwarantu ei chywirdeb.

Amodau Ac Eithriadau Yn Ymwneud Â Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi'r eithriadau a fydd mewn rhai amgylchiadau yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ymatal rhag rhyddhau gwybodaeth wedi iddynt gael cais amdani. Ni fydd rhywfaith o'r wybodaeth sydd yn ein meddiant yn cael ei chyhoeddi am resymau'n ymwneud â diogelu data: er enghraifft, nid oes angen rhyddhau gwybodaeth petai gwneud hynny'n peryglu diogelwch cenedlaethol neu'r broses o weithredu'r gyfraith (cofnodion llys).

Os penderfynwn ein bod am ddefnyddio un o'r eithriadau a bennwyd er mwyn ymatal rhag rhyddhau gwybodaeth yr ydych wedi gwneud cais amdani, byddwn yn dweud wrthoch chi pa eithriad a ddefnyddiwyd a'r rheswm pam y gwnaed hynny.

Gwneud Cais Am Wybodaeth

Os ydych am wneud cais am wybodaeth **nad yw** ar gael o fewn ein cynllun cyhoeddi ar hyn o bryd, edrychwch ar yr adran isod '***Manylion Cyswllt'*** er mwyn gwneud cais gan roi manylion am y wybodaeth yr ydych yn chwilio amdani.

Gwneud Cais Am Wybodaeth Arall

Yn ogystal â chael mynediad at wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi o fewn y cynllun cyhoeddi, byddwn yn ateb ymholiadau o dan y Cod Ymarfer presennol ar Fynediad at Wybodaeth Llywodraeth. Mae hyn yn eich galluogi i ysgrifennu atom yn gofyn am wybodaeth benodol. Anfonwch eich cais yn unol â'r manylion a nodwyd yr adran isod ar '***Manylion Cyswllt'.*** Efallai y bydd tâl am wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau mewn ymateb i gais penodol. Cewch wybod am hyn adeg eich cais.

Ceisiadau Am Wybodaeth O Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Cewch ofyn i'r Awdurdod Tân am wybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi eisoes, ac nad yw wedi'i heithrio o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mae gennych yr hawl i ofyn am gael gwybodaeth wedi'i darparu mewn ffordd arbennig a byddwn yn ceisio ymateb i'ch cais. Cewch ofyn am gymorth os cewch anhawster i lunio neu wneud cais drwy gyfeirio eich cais at yr adran isod sef ***'Manylion Cyswllt'***.

Byddwn yn eich helpu gymaint â phosib ond nid yw'n ofynnol i ni edrych am y wybodaeth yr ydych wedi gwneud cais amdani oni bai ein bod wedi derbyn:

- cais eglur a dealladwy sy'n cynnwys digon o fanylion i chwilio am y wybodaeth
- eich enw a'ch cyfeiriad neu gyfeiriad e-bost er mwyn i ni allu ymateb i'ch cais; a
- gwybodaeth am y ffurf yr hoffech dderbyn y wybodaeth.

Bydd hyn yn sicrhau y byddwn yn delio â'ch cais cyn gynted â phosib. Fe all rhai dogfennau gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio felly dim ond y wybodaeth nad yw wedi'i heithrio y byddwch chi yn ei derbyn. Er bod gennych hawl i gael gwybodaeth nid yw hynny'n golygu dogfennau o reidrwydd.

Ieithoedd Eraill

Byddwn yn darparu gwybodaeth yn y rhan fwyaf o ieithoedd ar gais. Bydd yr amser y mae'n ei gymryd i ni anfon y wybodaeth yn yr iaith y gwnaed cais amdani yn dibynnu ar ba mor gyflym y gallwn gael cyfieithiad.

Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth mewn ffurfiau gwahanol ar gyfer pobl ag anableddau ar gais. Gweler yr adran isod ar gyfer ***'Manylion Cyswllt'*** wrth wneud eich cais.

Codi Tâl Am Wybodaeth

O fewn y cynllun cyhoeddi codir tâl am ryddhau rhai mathau o wybodaeth er mwyn talu am gostau postio a llungopïo.

Ceir yn y canlynol wybodaeth am ein trefniadau codi tâl am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

- Gwybodaeth sydd ar gael drwy'r cynllun cyhoeddi
- Gwybodaeth nad yw yn y cynllun cyhoeddi
- Costau dosbarthu (postio a llungopïo)

Gwybodaeth sydd ar gael drwy'r cynllun cyhoeddi

Mae'r wybodaeth sydd ar gael drwy'r cynllun cyhoeddi yn nodi os oes tâl am y wybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael am ddim.

Os hoffech gael copi caled o'r wybodaeth sydd ar gael yn electronig drwy'r cynllun cyhoeddi neu ar ein gwefan, byddwn yn codi tal o 2c am bob tudalen. Mae'n bosib y codir tâl hefyd am bostio ar gyfradd safonol y Post Brenhinol. Os yw'r costau llungopïo a phostio yn llai na £10 i gyd ni fydd angen i chi dalu'r costau hynny.

Gwybodaeth nad yw yn y cynllun cyhoeddi

Mae cryn dipyn o wybodaeth eisoes ar gael drwy ein cynllun cyhoeddi neu ar ein gwefan am ddim, ond fe allai fod rhai mathau o wybodaeth y bydd yn rhaid i chi dalu amdanynt. Wrth wneud cais

(am wybodaeth nad yw ar gael ar hyn o bryd), fe allwn godi tâl am gostau postio a llungopïo (a elwir yn dreuliau), fel a ganlyn:

Costau dosbarthu (postio a llungopïo)

Bydd y tâl am y costau yn amrywio yn ôl nifer y copïau a'r tudalennau. Bydd costau i'w talu yn gyffredinol fel a ganlyn:

- ***Gwybodaeth ar gael yn electronig (gwefan neu e-bost)***
  Ni fydd tâl am anfon gwybodaeth yn electronig.

- ***Post***
  Am ddim, oni bai bod cyfanswm y gost o bostio a llungopïo yn fwy na £10, yna byddwn yn codi tâl am y wir gost. I gyfri'r gost, byddwn yn codi tâl o 2c am bob tudalen ar gyfer costau papur a llungopïo ac yna'r gwir gost o bostio ar sail cyfraddau'r Post Brenhinol.

- ***Archwiliad Personol***
  Gellir gweld gwybodaeth yn rhad ac am ddim os byddwch yn ymweld â'n swyddfeydd. Os ydych am lungopïo tudalennau o wybodaeth, gallwn godi tâl o 2c am bob tudalen.

- ***Cais am wybodaeth ar ffurf heb ei brintio ar bapur neu e-bost***
  Os ydych am dderbyn y wybodaeth ar ffurf arbennig (er enghraifft, ar CD), yna fe ellir codi tâl er mwyn darparu'r wybodaeth yn y ffurf honno. Cewch wybod am y gost pan fyddwch yn gwneud eich cais.

Dogfennau Sydd Ar Gael

Mae gwybodaeth ar gael mewn nifer o wahanol ffurfiau sydd wedi'u rhestru isod. Nodir hefyd unrhyw gostau.

GWYBODAETH	FFURF	COST
Cofnodion Cyfarfodydd Cyhoeddus	Ar-lein Copi caled ar gais	Am ddim 2c y dudalen
Adroddiadau Blynyddol	Ar-lein Copi wedi'i argraffu	Am ddim 2c y dudalen
Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau	Ar gael i'w archwilio	Am ddim
Taflenni a Llyfrynnau esboniadol	Copi wedi'i argraffu	Am ddim
Rhestrau	Ar-lein Copi caled ar gais	Am ddim 2c y dudalen
Adroddiadau Archwiliadau Ariannol	Ar-lein Copi caled ar gais	Am ddim 2c y dudalen
Cynlluniau Corfforaethol a Chynlluniau Busnes	Ar-lein Copi caled ar gais	Am ddim Am ddim
Gwybodaeth Ystadegol	Ar-lein Copi caled ar gais	Am ddim 2c y dudalen
Archebion Sefydlog	Ar-lein Copi caled ar gais	Am ddim 2c y dudalen
Llawlyfr Gwasanaeth	E-bost Copi caled ar gais	Am ddim 2c y dudalen
Gwybodaeth Amgylcheddol	E-bost Copi caled ar gais	Am ddim Am ddim
Adroddiadau gan Arolygwyr Allanol	Ar-lein Copi caled ar gais	Am ddim 2c y dudalen
Gwybodaeth Gyffredinol	Ar-lein Copi caled ar gais	Am ddim 2c y dudalen

Manylion Cyswllt

Ein henw a'n cyfeiriad llawn ar gyfer anfon unrhyw ddogfennau yw:

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub
Neuadd Lanelái
PONT-Y-CLUN
CF72 9XA

Ar **1 Chwefror 2009**, fodd bynnag, byddwn yn symud i'n Pencadlys newydd. Wedi hynny felly dylid anfon pob gohebiaeth i'r cyfeiriad canlynol:

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub
Fforest View Businesss Park
Llantrisant
PONT-Y-CLUN
CF72 8LX

Y Swyddog Cyfrifol sy'n gyfrifol am Ryddid Gwybodaeth o fewn yr Awdurdod Tan yw'r **Rheolwr Cymorth a Gwybodaeth Busnes.**

Rhif Ffôn: 01443 232000

Cyfeiriad e-bost: swfs@southwales-fire.gov.uk

Cwynion Ac Adborth

Os hoffech wneud sylw am y cynllun cyhoeddi hwn neu os hoffech gael rhagor o gymorth neu wneud cwyn, yna dylech gysylltu â'r Rheolwr Cymorth a Gwybodaeth Busnes yn y lle cyntaf, sef y swyddog cyfrifol dros Ryddid Gwybodaeth. Fe welwch y cyfeiriad yn yr adran ***'Manylion Cyswllt'*****.**

Os nad ydych yn hapus â'r cymorth a gawsoch gan Swyddog Cyfrifol yr Awdurdod Tân, sef y Rheolwr Cymorth a Gwybodaeth Busnes, ac nad ydym wedi llwyddo i ddatrys eich cwyn gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r Awdurdod Tân a'ch bod yn teimlo eich bod am wneud cwyn ffurfiol, yna dylech ei chyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel y nodir isod. Dyma'r sefydliad sy'n sicrhau y cydymffurfir â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac sy'n delio gyda chwynion ffurfiol.

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
WILMSLOW
Cheshire
SK9 5AF

Rhif Ffôn: 01625 54 57 45

Ffacs: 01625 524510

E-bost: mail@ico.gsi.gov.uk